

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

**Ysgol Gynradd Talysarn
Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6RH**

Rhif yr ysgol: 6612108

Dyddiad yr arolygiad: 01/02/10

gan

**Gareth Wyn Roberts
17166**

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/10

O dan rif contract Estyn: 1109909

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gynradd Talysarn fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Talysarn rhwng 1^{af} Chwefror 2010 a 2^{il} o Chwefror 2010, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'i arwain gan Gareth Wyn Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	3
Argymhellion	7
Safonau	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	11
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	11
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	14
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	17
Arweinyddiaeth a rheolaeth	19
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	19
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	21
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	23
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	25
Atodiadau	26
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	26
2 Data a dangosyddion ysgol	27
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	28
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	29
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	30

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Talysarn ym mhentref gwledig Talysarn, sydd rhyw filltir i'r dwyrain o Benygroes yn sir Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r cylch gwledig cyfagos. Mae'r ysgol, sydd o dan reolaeth Awdurdod Unedig (AU) Gwynedd, yn ysgol gynradd, naturiol ddwyieithog sy'n derbyn plant a disgyblion 3 i 11 oed. Ar hyn o bryd, mae ynddi 62 disgybl llawn amser, o oed derbyn i B6, a 13 plentyn rhan amser, oed meithrin. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser, sef dwy awr y dydd, yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ers yr arolygiad diwethaf, a gynhaliwyd yn rhymor y Gwanwyn 2004, mae nifer y disgyblion wedi aros yn bur debyg a nifer y plant meithrin wedi cynyddu o bedwar. Mae tri dosbarth yn yr ysgol, gan gynnwys y dosbarth meithrin yn y prynhawn. Yn ogystal â'r pennaeth, mae gan yr ysgol dair athrawes, tri chymhorthydd llawn amser, ynghyd â dau gymhorthydd ac un swyddog clerigol rhan amser.
2. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un sydd o dan anfantais economaidd. Mae 43.5% o'r disgyblion â hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim (PYD). Mae'r ganran hon yn sylweddol uwch na chanran y disgyblion oedd â hawl i PYD yn ystod yr arolygiad diwethaf (21%) ac yn arwyddocaol uwch na'r ganran sirol a Chymru gyfan. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod lawn o allu er nad yw wedi arenwi yr un disgybl 'mwy galluog a thalentog' ar y gofrestr yn gyfredol.
3. Daw tua 45% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn iaith gyntaf (28% yn is nag yn ystod yr arolygiad diwethaf), gyda 55% yn dod o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith y teulu. Ym marn yr ysgol, mae 70% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg naill ai yn iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Mae'r ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac un o nodau'r ysgol yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddwyieithog cyn mynd i'r ysgol uwchradd.
4. Mae'r holl ddisgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid yw'r AU yn 'gofalu am' yr un plentyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn gwersi mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan un disgybl ddatganiad anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 14 disgybl arall wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag AAA, gan gynnwys tri sydd angen sylw arbennig. Mae'r ganran hon (tua 25%) yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae canran y disgyblion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt ychydig yn uwch na'r ganran o ddisgyblion ag AAA yn ystod yr arolygiad diwethaf.
5. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2009. Nid oes dirprwy yn yr ysgol ac nid oes yr un athro yn derbyn lwfans cyfrifoldeb. Mae'r ysgol yn derbyn arolygiad byr y tro hwn.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2009-2010 yw:

- a) codi safonau ysgrifennu a pharhau i godi safonau llafaredd;
- b) codi deallusrwydd y disgyblion o'r pedair rheol mathemateg;
- c) parhau i ddatblygu egwyddorion "asesu ar gyfer dysgu" a "medrau meddwl";
- d) parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chynlluniau gwaith "Cwricwlwm 2008";
- e) datblygu cynlluniau gweithredu ôl arfarnu i godi safonau, parhau i finiogi trefn hunan arfarnu'r ysgol a datblygu rôl cydlynwyr pwnc wrth iddynt fonitro cynlluniau a gwersi gan roi sylw i'r dysgu, a
- f) chynllunio gwersi i gydfynd â dogfen newydd Addysg Personol ac Iechyd (ABICH) ar draws yr ysgol, gan ganolbwyntio ar "Ddinasyddiaeth Byd-eang" a pharhau i ddatblygu cysyniadau "bwyta'n iach".

Crynodeb

6. Mae hon yn ysgol dda ac iddi nifer o ragoriaethau, yn enwedig y cyfoeth o brofiadau a gaiff y disgybion, ansawdd partneriaethau gyda'r gymuned leol ac ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd y mae'n eu rhoi i'w disgyblion. Caiff nodweddion da'r ysgol eu hadlewyrchu yn safonau cyflawniad ei disgyblion a'i phlant, ei hethos arbennig, ac ansawdd da ei rheolaeth a'i harweinyddiaeth.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd Arolygu
Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	2
Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

7. Mae'r graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r graddau a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnodd y tîm arolygu radd is i gwestiynau allweddol 1 a 7.
8. Mae angen cymryd gofal wrth ddadansoddi asesiadau statudol athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 (CA1 a CA2) oherwydd nifer bach y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol. Mae nifer y disgyblion sydd â hawl i PYD hefyd wedi cynyddu a'r ysgol felly wedi symud grŵp ysgolion PYD.
9. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae canlyniadau asesiadau diwedd y ddau gyfnod allweddol yn gyffredinol dda neu dda iawn o'u cymharu â chanlyniadau Cymru gyfan, canlyniadau ysgolion cynradd lleol eraill a chanlyniadau AU Gwynedd. Maent hefyd, yn gyffredinol, yn cymharu'n dda'n gydag ysgolion yn yr un grŵp PYD. Roedd canlyniadau asesiadau'r athrawon ar ddiwedd CA1 a CA2 yn 2009 yn dda iawn.
10. Gan fod yr ysgol yn cael arolygiad byr y tro hwn, nid adroddir ar safonau pynciau unigol.
11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen (sef dosbarthiadau meithrin a derbyn yn yr ysgol hon eleni). Mae safonau yn yr holl fedrau allweddol cynnar hefyd yn dda.

12. Bu'r tîm arolygu yn archwilio safonau cyflawniad disgyblion CA1 a CA2 yn y medrau allweddol a'r medrau ehangach ar draws yr holl bynciau. Gan fod diffiniadau'r graddau wedi newid ers yr arolygiad blaenorol, mae'n anodd cymharu barnau'r tîm arolygu y tro hwn â barnau'r tîm arolygu blaenorol.
13. Mae safonau ym medrau allweddol siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu yn y Gymraeg, a medrau rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn CA1 a CA2, a Saesneg yn CA2 yn dda. (Ni fynegir barn ar safonau Saesneg ar draws y cwricwlwm yn CA1). Mae safonau yn y medrau allweddol ehangach, sef datrys problemau a gwella eu dysgu eu hunain, yn dda. Mae safonau ym medr allweddol ehangach 'gweithio gydag eraill' yn rhagorol.
14. Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn dda. Cymraeg yw mamiaith ychydig dan hanner y disgyblion ac nid addysgir Saesneg yn swyddogol yn CA1. Er hynny, erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd B6, mae'r disgyblion yn defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus ac yn trawsieithu o un iaith i'r llall yn rhwydd.
15. Gwna'r plant dan bump a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a chynnydd da yn y medrau newydd a gânt, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol neu ieithyddol.
16. Mae disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd rhagorol. Fel arfer, mae bechgyn a merched yn cyflawni'r un mor dda yn y dosbarth ac yn aml mewn asesiadau allanol.
17. Mae nifer mawr iawn o ragoriaethau ym medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r plant a'r disgyblion, yn enwedig yn eu datblygiad creadigol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae datblygiad ysbrydol y plant a'r disgyblion yn dda. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu llawer o annibyniaeth yn eu gwaith.
18. Mae cymhelliant disgyblion a'u gallu i weithio'n dda; gwnâ llawer o'r disgyblion ddefnydd da o'u hamser. Yn yr un modd, mae ymddygiad y disgyblion yn y dosbarth yn dda ac yn creu amgylchedd da ar gyfer dysgu.
19. Roedd lefelau presenoldeb yr ysgol yn ystod y tymor cyn yr arolygiad yn cyrraedd y targed o 95% a osododd yr ysgol ar gyfer presenoldeb. Yn y tri thymor cyn hynny, roedd ychydig yn is, ond unwaith eto, oherwydd nifer bach y disgyblion a'r plant yn yr ysgol, mae angen gofal wrth ddadansoddi'r ystadegau. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus iawn.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

20. Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
28%	56%	16%	0%	0%

21. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yn dda neu well mewn 91% o wersi (gradd 1 a gradd 2) ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (gradd 1) mewn 22% o wersi. Mae canran y gwersi y dyfarnwyd gradd 1 iddynt am addysgu yn yr ysgol hon yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a adroddir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2008-2009. Fodd bynnag, mae canran y gwersi y dyfarnwyd gradd 2 iddynt yn is na'r ganran genedlaethol (69%) a chanran y gwersi y dyfarnwyd gradd 3 iddynt yn uwch.
22. Cyflwyno'r athrawon wersi a gweithgareddau sydd yn diwallu anghenion y disgyblion yn llwyddiannus ac yn dal eu diddordeb a'u cymhelliant i ddysgu.
23. Mae ansawdd yr asesu, a'i ddefnydd wrth gynllunio a gwella'r dysgu, yn gyffredinol dda. Mae'r gweithdrefnau asesu yn diwallu'r gofynion statudol ond nid yw'r marcio o ddydd i ddydd bob tro yn gyson, na phob amser yn cael ei berthnasu i'r nodau a osodir i'r tasgau .
24. Mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion yr ystod o ddisgyblion yn yr ysgol yn rhagorol. Mae ansawdd y cynllunio cwricwlaidd yn dda drwy'r ysgol ac yn diwallu'r gofynion statudol.
25. Yn y Cyfnod Sylfaen a CA1 a CA2, mae'r cwricwlwm yn cynnig cydbwysedd, ehangder, cydlyniant, dilyniant a pharhad. Mae'r un mor hygyrch i bawb. Mae'n cwrdd â gofynion ystod ac oedran disgyblion yr ysgol. Datblyga'r ysgol fedrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion mewn iaith, rhifedd a TGCh yn dda.
26. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol o fewn gwersi pwnc, gwaith cylch, a thrwy weithgareddau cymunedol a chymdeithasol. Datblyga'r ysgol safonau ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi sylw rhagorol i agweddau o'r fframwaith ar gyfer ABICh. Rhydd yr ysgol sylw rhagorol hefyd i agweddau diwylliannol y Cwricwlwm Cymreig.
27. Llwydda'r ysgol yn dda i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog yr holl ddisgyblion.
28. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ac entrepreneuriaeth yn rhagorol.
29. Mae gan yr ysgol drefniadau rhagorol ar gyfer gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd i'r disgyblion. Mae holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn hynod o dda ac yn sensitif i'w hanghenion personol. Mwynha'r ysgol hyder y rhieni ei bod yn gofalu'n dda iawn am eu plant.
30. Mae'r trefniadau i gefnogi disgyblion sydd ag AAA yn rhagorol.
31. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol sydd yn cyfrannu at les yr holl ddisgyblion. Mae'r cynllun Ysgolion Iach yn cael effaith glir a chadarnhaol iawn ar wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ystod o faterion a berthyn i iechyd.
32. Rhoddir ystyriaeth dda i gefndiroedd cymdeithasol a ieithyddol y disgyblion. Mae'r ysgol yn trin bechgyn a merched yn gyfartal a theg. Ar safle hynod o anodd, mae cynllun hygyrchedd da ar gyfer yr anabl wedi ei sefydlu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

33. Mae'r pennaeth yn arweinydd a rheolwr llwyddiannus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran safonau a gwerthoedd. Mae ganddi weledigaeth eglur iawn o werthoedd, nodau, amcanion a blaenoriaethau'r ysgol mewn ardal ddi-freintiedig. Bu'n llwyddiannus iawn wrth gyfathrebu ei gweledigaeth i gydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r cydgysylltwyr pwnc yn gwneud eu gwaith yn dda.
34. Mae gan yr ysgol ymdeimlad clir o bwrpas a gaiff ei hybu'n sylweddol gan werthoedd, ethos a dulliau o weithio a rennir gan yr holl staff.
35. Mae'r ysgol yn gosod targedau realistig ond uchelgeisiol yn ôl gofynion y ddeddf. Mae prif flaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol (CDY) yn rhoi sylw rhagorol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae hon yn ddogfen o ansawdd da.
36. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt wybodaeth dda am bron bob agwedd o fywyd yr ysgol. Maent yn ffrindiau beirniadol i'r pennaeth a'i chydweithwyr.
37. Mae prosesau hunan arfarnu'r ysgol yn dda. Mae'r holl staff ynghlwm wrth y broses arfarnu, felly hefyd y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir yn cynnwys data asesu mewnol a statudol arfarniadau rheolaidd a dadansoddiad o waith disgyblion yn erbyn safonau pynciol.
38. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r holl staff. Mae'r staff atodol yn gweithio'n galed ac effeithiol. Mae gan yr ysgol adnoddau da a chânt eu defnyddio'n dda.
39. Oherwydd perygl o dirlithriad, mae rhan o'r buarth ar gau i'r disgyblion. Am resymau diogelwch teilwng, mae mynediad i rai o'r cyfleusterau allanol wedi ei rwystro. Mae diffyg amlwg, felly, yn y safle ar hyn o bryd.
40. Oherwydd y safonau a gyflawna'r plant a'r disgyblion yn y dosbarth, y profiadau rhagorol a gynigir, yr ethos cadarnhaol a'r rheolaeth a'r arweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol a sefydlir, darpara'r ysgol werth da am arian.
41. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r 'materion allweddol' a ddynodwyd yn adroddiad yr arolygiad blaenorol.

Argymhellion

I gynnal safonau uchel, mae angen i'r ysgol:

- A1. barhau i gynnal a chodi'r safonau pynciol da, a pharhau i adeiladu ar ganlyniadau da yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol;*
- A2. gysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, gan ledaenu a rhannu'r nodweddion rhagorol a welir mewn nifer o wersi;*
- A3. sicrhau bod ymateb i waith disgyblion o ddydd i ddydd yn gyson, yn glir ac yn ymwneud yn uniongyrchol â nodau'r dasg a osodir;*
- A4. mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, sicrhau diogelwch y safle a'i adfer at ddefnydd yr ysgol.*

* Mae'r ysgol wedi nodi'r argymhellion hyn yn ei chynllun datblygu ysgol, ei hunan arfarniad ysgol gyfan neu ddogfennaeth arall.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddogfennu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Da a dim diffygion pwysig

42. Mae'r radd a ddyfarnodd y tim arolygu i'r cwestiwn allweddol hwn yn is na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hunan arfarniad. Er bod cryfderau amlwg yng nghanlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnodau allweddol, yn enwedig yn 2009 ac yng nghyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd ddiwethaf, nid yw'r rhain wedi bod yn ddigon cyson dros amser i deilyngu gradd uwch.
43. Mae angen cymryd gofal wrth ddadansoddi asesiadau statudol athrawon ar ddiwedd CA1 a CA2 oherwydd mai ychydig o ddisgyblion sydd ym mhob blwyddyn ysgol. Mae nifer y disgyblion sydd â hawl i PYD hefyd wedi cynyddu a'r ysgol felly wedi symud grŵp ysgolion PYD yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cynnydd mawr yn y ganran hon rhwng 2009 a 2010, (i 43% yn 2010) yn ychwanegu at y cymhlethodod.
44. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae canlyniadau asesiadau diwedd y ddau gyfnod allweddol yn gyffredinol dda neu dda iawn o'u cymharu gyda chanlyniadau Cymru gyfan, canlyniadau ysgolion cynradd lleol eraill a chanlyniadau AU Gwynedd. Y CA2, maent hefyd wedi cymharu'n dda'n gydag ysgolion yn yr un grŵp cinio am ddim. Anwastad fu'r perfformiad cyfatebol yn CA1.
45. Roedd canlyniadau asesiadau'r athrawon ar ddiwedd CA1 a CA2 yn 2009 yn dda iawn gan fod yr holl ddisgyblion yn B2 a B6 wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig neu'n uwch. Yn B2, llwyddodd traean o'r disgyblion i gyrraedd lefel tri mewn gwyddoniaeth; llwyddodd hanner y disgyblion i gyrraedd yr un lefel mewn mathemateg, a bron yr un nifer yn y Gymraeg. Yn B6, roedd bron i dri chwarter y disgyblion wedi cyrraedd lefel 5 yn y Gymraeg a gwyddoniaeth a chwarter y disgyblion wedi cyrraedd yr un lefel yn Saesneg a mathemateg.
46. Mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2009, gan gynnwys y ganran sydd yn cyrraedd un lefel yn uwch na'r disgwyl yn CA1 a CA2, yn rhagori ar gyfartaledd canlyniadau blaenorol yr ysgol hon a naw ysgol arall debyg a osodir yn yr un 'teulu'¹ yn ôl ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).
47. Mae safonau'r plant dan bump oed yn eu medrau allweddol cynnar yn cyfateb i safonau medrau allweddol cyfatebol disgyblion CA1 a CA2 a ddisgrifir isod.
48. Mae safonau ym medrau allweddol siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu yn y Gymraeg, a medrau rhifedd, a TGCh yn CA1 a CA2, a Saesneg yn CA2 yn dda. (Ni fynegir barn ar safonau Saesneg ar draws y cwricwlwm yn CA1). Mae safonau yn y medrau allweddol ehangach, sef datrys problemau a gwella eu dysgu eu hunain, yn dda. Mae safonau ym medr allweddol ehangach 'gweithio gydag eraill' yn rhagorol.

¹ Yn 2009, am y tro cyntaf, trefnodd ystadegwyr LICC ysgolion mewn 'teuluoedd' o ddeg ysgol a barnwyd eu bod yn rhannu nifer o nodweddion tebyg.

49. Mae'r disgyblion yn siarad yn estynedig, yn gwrando'n dda ac yn darllen yn llithrig gan ddangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys. Mae bron bob disgybl hefyd yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith gyda lefel dderbyniol o gywirdeb.
50. Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion yn dda. Maent yn trawsieithu'n llwyddiannus o un iaith i'r llall ar lafar ac yn ysgrifenedig.
51. Mae sgiliau mathemategol y disgyblion yn dda. Gallant rifo, mesur a gweithio ar ddata yn dda. Mae sgiliau TGCh y disgyblion yn dda, yn enwedig eu sgiliau cyflwyno gwybodaeth.
52. Mae disgyblion ag AAA yn cyflawni'n rhagorol. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau cyflawniad bechgyn a merched, na chwaith yn safonau eu cyrhaeddiad yn yr asesiadau statudol.
53. Mae'r holl ddisgyblion yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer. Eithriad o'r mwyaf yw unrhyw ddisgybl yn CA2 nad yw sgôr ei asesiadau ddiwedd cyfnod allweddol yn dangos cynnydd o ddwy lefel. Yn ogystal, mae nifer o ddisgyblion, yn ddibynnol ar y flwyddyn ac ar y pwnc, yn cyrraedd lefel 5 erbyn diwedd B6.
54. Mae'r holl ddisgyblion yn llwyddo'n dda, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. Un o'r nodweddion da yw safonau Cymraeg disgyblion B6 sy'n dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg. Yr un modd, cyflawna disgyblion sydd yn siarad y Gymraeg gartref yn dda yn eu Saesneg.
55. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae holl blant a disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn holl agweddau eu meysydd profiad.
56. Mae'r holl ddisgyblion a phlant yn sicrhau gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau newydd i safon uchel drwy'r ysgol.
57. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei wneud. Mae ganddynt syniad da o'u cynnydd ac yn aml maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r disgyblion hyn, yn enwedig, wedi dechrau gosod targedau ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer eu cyfoedion.
58. Mae'r disgyblion oll, beth bynnag eu gallu, yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen o'r Cyfnod Sylfaen i CA1 a CA2, a hefyd o CA2 i'r sector uwchradd.
59. Mae agweddau bron bob disgybl at ddysgu'n dda; maent yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn elwa ohonynt. Gwnâ llawer o'r disgyblion ddefnydd da o'u hamser. Maent yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn eu gwaith. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda.
60. Maent yn dod yn ddysgwyr annibynnol yn fuan yn eu gyrfa ysgol ac mae eu hyfedredd yn y sgiliau allweddol a'r sgiliau allweddol ehangach, megis datrys problemau, cydweithio a gwella eu dysgu eu hunain, yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt i gynnal dysgu gydol oes yn dda.

61. Gydag ychydig eithriadau, mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Yn aml, mae'n dda iawn. Mae'r disgyblion yn gwrtais, yn awyddus i ddysgu ac yn arbennig o groesawgar tuag at oedolion, gan gynnwys ymwelwyr.
62. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio a chyd-chwarae'n dda. Maent yn mwynhau derbyn cyfrifoldebau, ac yn eu gweithredu'n gydwybodol. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn dangos gofal a chonsyrn am eraill ac am yr amgylchfyd.
63. Mae cyfle cyfartal i bawb ym mhob gweithgaredd. Caiff pob disgybl, gyda chymorth ychwanegol lle bo angen, gyfle i gyfranogi'n llawn o'r arlwy gyfoethog o weithgareddau a gynigir.
64. Roedd lefelau presenoldeb yr ysgol yn ystod y tymor cyn yr arolygiad yn cyrraedd y targed o 95% a osododd yr ysgol ar gyfer presenoldeb. Yn y tri thymor cyn hynny, roedd ychydig yn is, ond unwaith eto, oherwydd nifer bychan y disgyblion a'r plant yn yr ysgol, mae angen gofal wrth ddadansoddi'r ystadegau
65. Mae'r ysgol yn rhan bwysig dros ben o'i chymuned leol, gyda'r naill a'r llall yn elwa'n sylweddol o'r bartneriaeth. Daw'r disgyblion yn fuan i ddeall natur ac anghenion y gymdeithas leol. Maent yn meithrin sgiliau angenrheidiol i fyw ynddi hi.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Da a dim diffygion pwysig

66. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu.
67. Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
28%	56%	16%	0%	0%

68. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yn dda neu well mewn 91% o wersi (gradd 1 a gradd 2) ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (gradd 1) mewn 22% o wersi. Mae canran y gwersi y dyfarnwyd gradd 1 iddynt am addysgu yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a adroddir gan PAEM yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2008-2009. Fodd bynnag, mae canran y gwersi y dyfarnwyd gradd 2 iddynt yn is na'r ganran genedlaethol (69%) a chanran y gwersi y dyfarnwyd gradd 3 iddynt yn uwch.
69. Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu dda iawn fel rheol er bod amrywiaeth yn ansawdd gwersi unigol mewn rhai dosbarthiadau. Mae gan yr athrawon adnabyddiaeth dda o ofynion y pynciau a'r meysydd astudiaeth, ac mae eu disgwyliadau'n uchel o ran safon canolbwyntio'r disgyblion a safonau ymddygiad. Mae'r holl athrawon a chymorthyddion dosbarth wedi sefydlu perthynas dda gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch. Gwneir defnydd cyson a phwrpasol o anogaeth a chanmoliaeth i ysgogi'r disgyblion.
70. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:
- holi celfydd, byrlymus a threiddgar yn y cyflwyniadau dosbarth cyfan a'r gwaith grŵp, sy'n cynnwys pob disgybl ac yn eu herio;
 - cynllunio tasgau ymarferol ac estynedig sy'n symbylu diddordeb a brwdfrydedd disgyblion i archwilio eu syniadau;
 - defnyddio asesiad o waith y disgyblion wrth iddynt weithio yn gelfydd iawn fel modd o godi safonau pynciol;
71. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:
- rhannu amcanion y wers gyda'r disgyblion;
 - cyflwyniadau trylwyr ac esboniadau clir sy'n canolbwyntio ar amcanion y wers;
 - sylw i flaengareddau newydd, megis datrys problemau a medrau sy'n datblygu gallu'r disgyblion i feddwl;
 - cydbwysedd da rhwng addysgu'r athrawon a dysgu gan unigolion, grŵp neu barau o ddisgyblion;

- cyflymder y gwersi a'r addysgu, gan gynnwys sesiynau cloi byr â ffocws clir iddynt;
 - defnydd effeithiol o ystod o adnoddau addysgu, gan gynnwys defnydd achlysurol o fwrdd gwyn rhyngweithiol fel taflunydd data;
 - disgwyliaid uchel i symud y dysgu ymlaen, a
 - chynhaliaeth a chefnogaeth dda i ddisgyblion pan fyddant wrth eu gwaith.
72. Yn y gwersi y dyfarnwyd gradd 3 iddynt, mae nifer o'r cryfderau a nodir uchod ond hefyd un neu fwy o'r diffygion isod:
- diffyg manylder yn y cynllunio ar gyfer y sesiwn;
 - sylw annigonol i gynnal diddordeb pob plentyn, a
 - diffyg teilwra tasgau'n ddigonol ar gyfer anghenion disgyblion unigol.
73. Fel arfer, mae ffocws clir ar amcanion dysgu sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion a'u gwirio ar ddiwedd gwrs, pan gadarnheir y meini prawf llwyddiant ac amcanion y wers. Atgyfnertha'r athrawon wybodaeth flaenorol yn effeithiol a rhoddant gefnogaeth dda i unigolion a grwpiau wrth iddynt gyflawni eu tasgau. Mae trefniadaeth ddosbarth yn gadarn.
74. Mae'r athrawon yn talu sylw da i anghenion pob disgybl ac ni cham-wahaniaethir ar sail rhyw, hil na gallu.
75. Ar y cyfan, mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd i rieni yn dda. Mae'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda a defnyddiant ystod o ddulliau addas wrth ddod i farn am safonau.
76. Mae'r asesu crynodol yn effeithiol, cyson a chywir. Asesir disgyblion yn y pynciau craidd yn dymhorol ac yn y pynciau sylfaen yn flynyddol. Mae ansawdd asesu gwaith plant y Cyfnod Sylfaen yn dda. Defnyddia'r athrawon y wybodaeth fanwl, a gesglir drwy asesu sylfaen ac arsylwi a chofnodi rheolaidd, yn effeithiol wrth gynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol a chadw llygaid ar les y plant.
77. Caiff gwaith y disgyblion sydd ag AAA ei asesu'n drwyadl.
78. Er bod amrywiaeth yn natur y targedau a osodir ar gyfer disgyblion, mae'r targedau, fel arfer, yn nodi'n gryno'r hyn sydd angen ei wneud i godi safonau. Mae'r disgyblion hyn yn gosod targedau addas ar eu cyfer hwy eu hunain ac, ar adegau, ar gyfer eu cyfoedion fel rhan o'r broses o wella eu dysgu eu hunain. Mae'r athrawon a'r disgyblion yn adolygu'r targedau yn gyson, ac maent yn cael eu rhannu gyda'r rhieni'n dymhorol.
79. Serch hynny, nid yw safon ymateb yr athrawon i waith disgyblion o ddydd i ddydd yn gyson, yn enwedig yn CA2, ac nid yw'r targedau a osodir wrth farcio gwaith yn cyfateb yn ddigon agos i'r nodau a osodwyd ar gyfer y dasg.
80. Yn ogystal â chynllun cynhwysfawr i dracio datblygiad disgyblion unigol, gwna'r ysgol ddadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad disgyblion CA1 a CA2 yn flynyddol. Rhoddir sylw i berfformiad gwahaniaethol bechgyn a merched, perfformiad rhwng gwahanol flynyddoedd a pherfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn ddalgylchol, sirol a chenedlaethol.

81. Mae gan yr ysgol bortffolios manwl ond hylaw o waith enghreifftiol sydd wedi ei asesu yn ôl gofynion y CC yn y pynciau craidd. Mae'r rhain yn feincnodau defnyddiol iawn ar gyfer safoni gwaith disgyblion yn fewnol yn yr ysgol. Yn ogystal, mae samplau o waith a fernir o safon dda neu'n well yn y pynciau sylfaen.
82. Er bod trafodaethau wedi digwydd gyda'r ysgol uwchradd gyfagos ac ysgolion cynradd y dalgylch i safoni gwaith disgyblion yn yr holl bynciau craidd ar ddiwedd CA2, prin fod y gwaith o gymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod allweddol hwn wedi dechrau.
83. Mae'r adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac maent o ansawdd da. Trefnir cyfleoedd deirgwaith y flwyddyn i rieni fynychu cyfarfodydd i drafod gwaith eu plant, ac mae'r rhieni'n canmol eu hansawdd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

84. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu.
85. Mae'r ysgol yn ymateb yn rhagorol i anghenion a diddordebau'r disgyblion.
86. Mae'r cwricwlwm yn CA1 a CA2 yn cynnig darpariaeth eang, amrywiol, a chytbwys sy'n hybu cynnydd da. Mae'n cydymffurfio â holl ofynion statudol y CC ac addysg grefyddol.
87. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Ceir enghreifftiau rhagorol o weithredu arferion a dulliau'r Cyfnod Sylfaen.
88. Fodd bynnag, mae hefyd enghreifftiau o ddiffyg cysondeb a pharhad ar brydiau rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA1, yn enwedig yn y dosbarth derbyn.
89. Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion Cwricwlwm 2008 yn CA2 yn dda. Mae'r cynllunio cwricwlaidd yn gosod y pwyslais dyledus ar ddatblygu sgiliau a medrau allweddol y disgyblion. Adlewyrchir hyn yn y safonau da a gyflawna'r disgyblion yn y medrau hyn. Mae'r ysgol wedi derbyn trydydd achrediad Nod Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac wedi cynllunio datblygiad y sgiliau sylfaenol yn ofalus.
90. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn statudol i gynnal addoliadau ar y cyd dyddiol. Fodd bynnag, collir cyfleoedd ar adegau i roddi sylw digonol i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion am na lwyddir i greu'r ethos priodol.
91. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol.
92. Mae ABICh yn treiddio'n gref a naturiol drwy fywyd a gwaith bob dydd yr ysgol. Mae hyn yn rhagoriaeth. Darperir addysg rhyw o ansawdd dda fel rhan o'r cwricwlwm.
93. Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau rhagorol i'r disgyblion drwy drefnu cyfraniadau i achlysuron cymunedol ac elusennol, a defnyddia bob cyfle i ymgyfoethogi addysg y plant a'r disgyblion
94. Mae'r ysgol yn hybu'r Cwricwlwm Cymreig yn rhagorol ar draws ystod eang o bynciau. Gwnâ'r ysgol ddefnydd rhagorol o ymweliadau â'r ardal leol ac ymhellach i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae gwersi a gweithgareddau'r ysgol yn hybu dwyieithrwydd y disgyblion yn dda.

95. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn rhagorol. Roedd y rhieni yn tystio'n gryf i hyn yn eu holiaduron ac yn y cyfarfod cyn arolygiad. Mae safon y cyfathrebu, y cyfarfodydd, yr adroddiadau, y llythyru, a'r bwletinau, sy'n cynnwys gwybodaeth am weithgareddau, oll yn dda iawn. Mae'r Cytundeb Cartref ac Ysgol, Llawlyfr y Rhieni ac Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn cyfateb yn llawn i'r gofynion. Cyfranna'r rhieni hefyd yn dda i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae'r Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yn gweithio'n frwd i gynnal yr ysgol.
96. Mae'r cysylltiad gyda'r gymuned yn rhagorol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i'r henoed ac i achosion haeddiannol eraill. Mae'r ysgol hefyd yn ganolfan allweddol i bentref Talysarn a'r ardal ehangach ac yn cynnig cynhaliaeth dda i'r gymuned honno. Cynhelir amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol, megis ffeiriau, cyngherddau a gweithgareddau eraill, yn yr ysgol.
97. Mae gan yr ysgol gysylltiadau a phartneriaeth dda gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r cysylltiad gydag Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle, Penygroes, yn rhagorol. Mae'r drefn ar gyfer trosglwyddo disgyblion B6 i'r ysgol honno yn dda iawn. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gref gyda myfyrwyr y chweched dosbarth sy'n astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i fyfyrwyr ar brofiad gwaith o Goleg Menai ac i ddarparu athrawon o Brifysgol Cymru, Bangor, i weithio yn yr ysgol.
98. Mae'r holl gysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion yn sylweddol. Maent yn eu paratoi'n rhagorol i ddyfod yn aelodau ac arweinyddion yn y gymuned yn y dyfodol
99. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd busnes a'r gweithle yn rhagorol. Sefydlodd yr ysgol amrediad eang o gysylltiadau â byd busnes er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae'r disgyblion yn astudio egwyddorion marchnata, gan gynnwys cyllid, cynllunio busnes a chynhyrchu. Maent yn cynhyrchu nwyddau a'u hysbysebu drwy'r cylchlythyr *Trysorau Talysarn*. Gweithreda'r ysgol bartneriaeth effeithiol iawn gydag Uned Coleg Menai yng Nglynllifon, ac mae'r ysgol wedi bod yn hynod lwyddiannus i ddenu grantiau ar gyfer datblygiadau.
100. Mae'r sylw y mae'r ysgol yn ei roi i ddatblygiad cynaliadwy yn rhagorol. Trefnir nifer o weithgareddau ac astudiaethau penodol yng nghyd-destun ail-gylchu ac arbed ynni a gwastraff. Mae'r ysgol wedi ei hachredu'n *Ysgol Eco*, ac wedi derbyn y wobr arian Ysgol Werdd.
101. Mae Pwyllgor Gwyrdd y disgyblion yn frwdfrydig ac, mewn partneriaeth â Grŵp Blodeuwedd lleol maent wedi datblygu gardd yr ysgol i fod yn adnodd gwerthfawr. Mae agweddau o amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys yr ardd, yn rhagorol. Gweithia'r ysgol mewn partneriaeth â Grŵp Blodeuwedd i blannu blodau i harddu'r pentref.
102. Mae dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n dda trwy astudiaethau niferus o wledydd tramor ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn elwa o astudiaethau lliwgar, ymarferol a chyffrous o fwydydd, diwylliant ac adeiladau gwledydd megis Tsiena a Ffrainc.

103. Mae gan yr ysgol y polisiâu gofynnol ar gyfer cyfleoedd cyfartal, gwrth hiliaeth, asesiadau risg, amddiffyn plant a hygyrchedd anableddau. Maent oll yn weithredol ac yn agwedd gref iawn o fywyd yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

104. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu.
105. Caiff disgyblion eu harwain yn rhagorol mewn amgylchedd gofalgar, clos a diogel. Rhoddir sylw da iawn i oddefgarwch, brawdgarwch a charedigrwydd. Sefydlwyd ethos gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr oedolion oll. Oherwydd hyn, teimla'r disgyblion yn hollol gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth.
106. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd. Maent yn frwdfrydig yn eu dyletswyddau ac yn cynnig ffyrdd o ddatblygu'r ysgol er lles y disgyblion.
107. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth effeithiol iawn gyda'r rhieni. Mae'r polisi drws agored a weithredir yn caniatáu iddynt wneud trefniadau i siarad yn fuan gydag athrawon am unrhyw bryder sydd ganddynt. Mynegodd y rhieni yn y cyfarfod cyn-arolygiad eu bod yn hapus iawn gydag ansawdd y gofal mae'r ysgol yn ei ddarparu ar gyfer eu plant.
108. Mae'r cyrsiau teuluol i rieni a drefnir ar y cyd gyda Choleg Menai yn adnodd effeithiol a gwerthfawr iawn. Mae hyn yn rhagoriaeth.
109. Mae'r plant meithrin yn ymgartrefu'n fuan yn awyrgylch deuluol yr ysgol.
110. Mae trefniadau effeithiol iawn i drosglwyddo'r disgyblion i'r ysgol uwchradd er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus wrth symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Cynhelir cyfarfodydd pontio rhwng penaethiaid yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd, a chaiff disgyblion gyfle i ymweld â'r ysgol uwchradd cyn dechrau yno.
111. Mae polisiâu a holl weithdrefnau cofrestru disgyblion yr ysgol yn weithredol ac yn cael eu monitro'n ofalus. Mae'r cofrestrau a'u gweinyddiaeth, ynghyd â chofnodion manwl a llythyrau a dderbyniwyd gan y rhieni, yn cwrdd â gofynion Cylchlythyr 3/99 LL.C.C.
112. Mae safon cwrteisi ac ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Mae'r gweithdrefnau yn gysylltiedig ag ymddygiad, disgyblaeth a gwrthfwlian hefyd yn weithredol. Mae'r Cyngor Ysgol wedi cydweithio i gynhyrchu fideo gwrthfwlian effeithiol a defnyddiol. Mae'r rhieni a'r disgyblion o'r farn nad oes bwlio yn yr ysgol hon.
113. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr oruchwyliaeth amser egwyl a chinio ar safle anodd yn rhagorol.

114. Paratowyd polisïau a gweithdrefnau i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, a chaiff unrhyw broblem sy'n codi sylw buan. Mae mesurau da i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion. Mae'r asesiadau risg yn gynhwysfawr ac yn cael y sylw dyladwy.
115. Mae'r ysgol yn cynnal ymarfer tân bob tymor ac yn sicrhau yn flynyddol bod yr offer tân mewn cyflwr da. Mae trefniadau gofalu am blant sy'n sal, neu sydd wedi cael damwain, yn effeithiol, ac mae gan ddwy aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol.
116. Mae'r ysgol yn rhoi sylw rhagorol i ddiogelu plant. Mae holl staff yr ysgol yn wylidwrus a thrafodir gofynion a gweithdrefnau diogelu plant yn drylwyr mewn cyfarfodydd staff. Y pennaeth yw'r person a enwir ar gyfer diogelu plant. Mae'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau a'u cyfrifoldebau yn y maes hwn.
117. Canmola'r rhieni'r modd y mae'r ysgol yn hybu cydraddoldeb. Mae polisi cyfle cyfartal a pholisi AAA yr ysgol yn cyd-berthnasu'n dda.
118. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion y Còd Ymarfer AAA drwy ffurfioli'r broses o adolygu a chofnodi cynnydd disgyblion unigol a'i gweithredu'n drylwyr iawn. Mae'r trefniadau i adnabod disgyblion sydd ag AAA a'r ddarpariaeth a drefnir ar eu cyfer yn rhagorol. Mae'r ysgol yn gosod targedau priodol a mesuradwy i gwrdd ag anghenion y disgyblion hyn. Gwnânt gynnydd rhagorol.
119. Mae'r ysgol yn hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion yn rhagorol. Mae'r ysgol wedi ei hasesu'n llwyddiannus ar gyfer achrediad 'Ysgol Iach'. Mae'r staff arlwythaeth yn paratoi bwyd iach i annog bwyta'n iach.
120. Mae gan yr ysgol glwb brechwast ar ddechrau'r dydd, ac ystod o weithgareddau allgyrsiol ar ddiwedd y prynhawn, megis yr Urdd, hyfforddiant pêl rwyd, pêl droed a Champau'r Ddraig, sydd yn cynnig gofal i'r disgyblion, ac yn darparu cyfleoedd iddynt gymdeithasu â'i gilydd.
121. Mae'r disgyblion yn dangos empathi rhagorol at eraill drwy gasglu arian yn rheolaidd at achosion da a thrwy noddi prosiectau i helpu trigolion sy'n byw yn lleol.
122. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag ei oed, rhyw, gallu neu gefndir, yn rhagorol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chyfarwyddo disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer ymdrin ag ymddygiad gwael.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

123. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu.
124. Mae'r pennaeth yn arweinydd a rheolwr llwyddiannus iawn. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel. Mae ganddi weledigaeth eglur iawn o werthoedd, nodau, amcanion a blaenoriaethau'r ysgol mewn ardal ddi-freintiedig ac mae wedi eu cyfleu'n llwyddiannus i'w chydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni. Mae ei chyfraniad i fywyd a llwyddiant yr ysgol yn dda iawn.
125. Ar ysgwyddau'r pennaeth y disgyna'r baich o arwain mewn llawer iawn o feysydd gan nad oes dirprwy yn yr ysgol na deiliaid lwfansau cyfrifoldeb. Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n gydwybodol gan holl aelodau'r staff sydd yn aml yn cyflawni dyletswyddau rheolaethol uwchlaw'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Dal i ddatblygu mae agweddau o reolaeth y Cyfnod Sylfaen.
126. Mae gan yr ysgol ymdeimlad clir o bwrpas a gaiff ei gynnal yn dda gan werthoedd ac ethos cyfrannol a chydweithio effeithiol.
127. Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd penodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Caiff y gwerthoedd hyn eu hadlewyrchu'n eglur ym mywyd beunyddiol yr ysgol, lle caiff plant o bob gallu, oed, rhyw neu gefndir eu trin yn gyfartal a derbyn yr un cyfleoedd.
128. Caiff targedau uchelgeisiol ond realistig eu gosod, yn ôl gofynion y ddeddf, ar gyfer y pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r athrawon dosbarth yn ymwybodol o'r targedau hyn gan iddynt gynorthwyo i'w llunio.
129. Mae prif flaenoriaethau'r CDY yn rhoi sylw rhagorol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys dwyieithrwydd, creu cysylltiadau cymunedol, arfer cynaladwyedd, annog dull iach o fyw i'r disgyblion a pharhau i baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r CC newydd a ddechreuodd ym Medi 2008. Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol o bartneriaid lleol. Mae cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n eglur, felly hefyd feini prawf llwyddiant. Mae'r blaenoriaethau wedi eu prisio'n ofalus. Cafodd y rhai sydd â diddordeb yn yr ysgol gyfle i gyfrannu at y CDY.
130. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad addas. Mae cynlluniau'n weithredol i gefnogi athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar, ac mae'r ysgol yn rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'r staff yn mynychu hyfforddiant perthnasol. Eisioes mae effaith hyn i'w weld yn y deunyddiau a'r fethodoleg a ddefnyddir yn y dosbarth. Yn ychwanegol, mae'r pennaeth yn cynnig cefnogaeth bersonol a phroffesiynol gref o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff.

131. Mae'r ysgol wedi paratoi cynlluniau addas i sicrhau bod y staff yn derbyn yr amser digyswllt gofynnol ac mae hyn wedi arwain at newid arwyddocaol yn y fethodoleg addysgu a dysgu a weithredir. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar safonau pynciol ac ar ymrwymiad y plant a'r disgyblion i'r gwaith.
132. Mae gweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol yn dda a chaiff yr adnoddau eu rheoli'n dda.
133. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae gan nifer ohonynt arbenigedd defnyddiol mewn meysydd perthnasol a defnyddiant eu medrau i gynorthwyo'r ysgol. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau agos iawn gyda'r gymuned a'r rhieni. Mae eu gwybodaeth am fywyd yr ysgol yn dda. Maent yn ffrindiau beirniadol i'r pennaeth a'i chydweithwyr ac yn monitro gwaith yr ysgol yn dda.
134. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei holl gyfrifoldebau statudol yn dda.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

135. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu.
136. Mae'r graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu yn cytuno gyda'r graddau a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y ddau gwestiwn lle dyfarnwyd gradd wahanol, sef 1 a 7, rhoddodd y tîm radd is.
137. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol o ansawdd da. Mae'n seiliedig ar adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol. Mae'n dilyn saith cwestiwn allweddol Estyn ac mae'n arfarnol yn hytrach na disgrifiadol. Mae'n rhoi gradd ar gyfer pob cwestiwn ac yn llunio rhestr o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gaiff eu hadlewyrchu yn y CDY. Ar ddiwedd yr arfarniad o bob cwestiwn allweddol, mae crynodeb da o gyfraniad y cwestiwn allweddol hwnnw i safonau pynciol.
138. Prif gryfderau'r ddogfen hunan arfarnu yw ei hansawdd fel dogfen ysgrifenedig a hefyd y broses gydweithredol a'i cynhyrchodd. Mae'r holl staff ynghlwm wrth y broses arfarnu, felly hefyd y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r ysgol yn holi ac yn cymryd sylw da o safbwyntiau'r disgyblion, yn anffurfiol ac yn fwy ffurfiol, yn y Cyngor Ysgol. Yn ychwanegol, mae'n ceisio barn rhieni ac mae'r corff llywodraethol hefyd yn cymryd rhan weithredol yn yr hunan arfarnu. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaeth ymgynghori addysgiadol yr AU i asesu'r ddarpariaeth a hefyd i roi barn ar safonau.
139. Mae prosesau hunan arfarnu'r ysgol yn dda. Mae gan y pennaeth a'i chydweithwyr wybodaeth dda o safonau yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiant yn cynnwys data asesu mewnol a statudol yn ogystal ag adnabyddiaeth dda iawn o ddisgyblion unigol. Mae arfarniadau rheolaidd yr ysgol wedi eu seilio ar arsylwadau ffurfiol o wersi a dadansoddiad manwl o waith disgyblion yn erbyn safonau pynciol. Dal i ddatblygu mae sgiliau'r cydlynwyr pwnc yn y meysydd hyn. Nid yw'r broses hunan arfarnu, fodd bynnag, wedi sicrhau dosraniad addas o adnoddau dynol yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen ar bob achlysur.
140. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r broses hunan arfarnu i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r CDY o ansawdd da ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddynodir yn y ddogfen hunan arfarnu. Mae'n arf rheolaethol effeithiol. Mae'r ysgol hefyd yn gosod targedau a blaenoriaethau meintiol ac ansoddol heriol.
141. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn darparu adnoddau digonol i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a osodwyd.

142. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad blaenorol. Gan mai arolygiad byr a gafodd yr ysgol y tro hwn, ni bu modd arfarnu a oedd safonau mewn rhai pynciau wedi codi. Teg yw dweud, fodd bynnag, bod safonau cyrhaeddiad yn y pynciau craidd ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn dda. Mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu llafaredd a geirfa'r disgyblion ar draws y cwricwlwm, gan sicrhau cydbwysedd addas rhwng gwaith ysgrifenedig a llafar. Mae'r CDY bellach yn cynnwys dangosyddion llwyddiant. Mae'r ysgol hefyd wedi ymestyn arferion da mewn monitro'r addysgu, er bod peth gwaith i'w wneud eto i sicrhau cysondeb. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod ganddi bolisi anabledd addas. Bu i'r ysgol ddelio â'r bylchau yn yr adroddiad blynyddol. Mae hi hefyd wedi ymateb i'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

143. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yn is na'r radd 1 a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu. Er bod nifer o gryfderau yn y dull y mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau, nid oes digon o ragoriaethau i sicrhau'r radd uchaf. Wrth ddyfarnu'r radd ar gyfer y cwestiwn hwn, rhaid ystyried y problemau cyfredol gyda safle'r ysgol, sef bod hanner y buarth ar gau i'r disgyblion oherwydd tirlithriad a bod y mesurau diogelwch angenrheidiol yn rhwystro mynediad i rannau eraill o'r safle.
144. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda gydag athrawon sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, plant y blynyddoedd cynnar a'r disgyblion sydd ag AAA. Mae gan yr ysgol athrawon ymroddedig a brwdfrydig sydd yn defnyddio dulliau cyfoes o addysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad i addysgu o ansawdd uchel, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth effeithiol iawn i'w dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
145. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o gyfleoedd i ddatblygu ei staff yn broffesiynol yn fewnol ac allanol. Mae'r holl athrawon yn derbyn amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol ac yn gwneud defnydd da ohono i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth gwricwlaidd ac asesu ar draws yr ysgol yn y pynciau y maent yn gyfrifol amdanynt.
146. Gwna'r staff cefnogi AAA gyfraniad ardderchog i fywyd yr ysgol a gweithiant yn galed gyda'r athrawon i gynllunio, addysgu a chofnodi cynnydd y disgyblion. Derbyniant wybodaeth a hyfforddiant addas sy'n eu galluogi i roi'r sylw dyledus i anghenion dysgu'r disgyblion ag AAA y maent yn eu cefnogi. Mae'r drefn o ddefnyddio staff cefnogi yn y dosbarth derbyn yn anghyson ar adegau.
147. Gwna'r staff ategol gyfraniad effeithiol i les y disgyblion. Mae ysgrifenyddes yr ysgol yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau beunyddiol yn rhedeg yn esmwyth. Mae gan staff y gegin gyfraniad hanfodol o fewn cymuned yr ysgol. Mae gofalwr yr ysgol a'r staff glanhau bob amser yn sicrhau'r safonau glendid a iechyd a diogelwch gorau er lles y disgyblion. Cedwir a chynhelir adeilad yr ysgol yn rhagorol.
148. Mae'r adeilad, yr ystafelloedd a'r cynteddau yn lliwgar, hardd a deniadol. Mae'r arddangosfeydd o ansawdd uchel ac yn dathlu llwyddiant y disgyblion yn eu gwaith yn effeithiol iawn. Caiff yr holl ardaloedd o fewn yr ysgol eu defnyddio'n llawn i ddiwallu anghenion y disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd da o'r gofod sydd ar gael ar gyfer yr ystod eang o strategaethau cyfoes y mae'r athrawon yn eu defnyddio i wella dysgu'r disgyblion.
149. Oherwydd problemau draenio ar wyneb y buarth, nid oes modd cael mynediad llawn at ardd yr ysgol a'r maes chwarae. Mae hyn yn cael effaith ar addysg lawn y disgyblion ac yn enwedig addysg plant y Cyfnod Sylfaen. Mae safon diogelwch y safle yn dderbyniol.

150. Mae'r adnoddau dysgu yn gyfoethog ac o ansawdd da iawn. Cânt eu defnyddio'n effeithiol iawn gan mwyaf. Serch hynny, mae diffyg adnoddau priodol mewn TGCh yn CA1 ac yn ystafell ddosbarth B5 a B6 yn amharu ar ansawdd y dysgu a'r addysgu ar brydiau.
151. Mae'r llywodraethwyr yn cynnal trosolwg da o gynlluniau gwariant yr ysgol. Maent ynghlwm wrth fonitro'r targedau a ddynodwyd yn y CDY.
152. Oherwydd y safonau a gyflawnir yn y dosbarth, y profiadau rhagorol a gynigir, yr ethos cadarnhaol a'r rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol a sefydlir, darpara'r ysgol werth da am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol, ac yn adlewyrchiad o ymroddiad, gwaith caled a phroffesiynoldeb staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni Ysgol Talysarn.

Rydym yn ymfalchio bod yr adroddiad yn nodi bod yr ysgol yn un dda ac iddi nifer o ragoriaethau, yn enwedig y cyfoeth o brofiadau a gaiff y disgyblion, ansawdd partneriaethau gyda'r gymuned leol ac ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd y mae'n eu rhoi i'w disgyblion.

Cydnabyddia'r adroddiad fod safonau ym medrau allweddol y disgyblion yn dda a bod eu safonau yn y medrau allweddol ehangach 'gweithio gydag eraill' yn rhagorol. Yn ogystal, nodir bod nifer fawr o ragoriaethau ym medrau personol a chymdeithasol y disgyblion. Canmolwyd y modd y mae'r disgyblion yn cael eu harwain yn rhagorol mewn amgylchedd gofalgarn, clos a diogel.

Bydd yr ysgol yn ymateb i argymhellion yr adroddiad drwy lunio cynllun gweithredu priodol ac yn blaenoriaethu'r agweddau sydd angen sylw pellach yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol er mwyn sicrhau gwelliant pellach gan barhau i symud yr ysgol yn ei blaen yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Dymunwn ddiolch i'r tîm arolygu am y modd teg, trylwyr a phroffesiynol y cynhaliwyd yr arolygiad. Yn ei rôl fel enwebai, teimla'r Pennaeth fod y broses arolygu wedi bod yn un gwbl onest ac agored.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Talysarn
Math o ysgol	Cynradd, cymunedol, naturiol dwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Ysgol Talysarn, Ffordd Coed Madog, Talysarn, Caernarfon, Gwynedd
Cod post	LL54 6HR
Rhif ffôn	01286 880885

Pennaeth	Mrs Glenda Evans
Dyddiad penodi	Medi 2009
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Rhian Wyn Williams/ Cyngor Gwynedd/ Adran Addysg, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Castell, Caernarfon LL54 1SH
Arolygydd cofrestredig	Gareth Wyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	1 a 2 Chwefror 2010

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	6.5	11	7	8	6	10	11	9	68.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	21:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	6.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	amherthnasol
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	21
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.2:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn	78.0	91.8	93.5
Haf 2009	81.4	91.7	92.2
Hydref 2009	84.9	90.2	95.7

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	43.75%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	DIM

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y disgyblion yn B2	6
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	81%

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2010	Nifer y disgyblion yn B6	7
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl asesiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	100%	Yn yr ysgol	amherthnasol
Yng Nghymru	76%	Yng Nghymru	amherthnasol

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd, gan gynnwys enwebai'r ysgol, gyfwerth â phum diwrnod arolygu yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn dechrau'r arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 18 o wersi neu rannau o sesiynau
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau ac addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, athrawon a staff cymorth a gweinyddol;a
- chynghor yr ysgol.

Roedd y tîm hefyd wedi ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- ymddygiad ac agweddau'r disgyblion;
- 13 ymateb i'r holiadur i rieni;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion, a
- samplau o adroddiadau disgyblion

Yn dilyn yr arolygiad cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a chyda llywodraethwyr yr ysgol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Gareth Wyn Roberts Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, crynodeb, cwestiwn allweddol 1, 2, 5, 6 ac atodiadau
Mr Wil Owen Arolygydd Lleyg	Cyfrannu i gwestiwn allweddol 1, 3, 4 a 7
Dr Prydwen Elfed -Owens Arolygydd Tîm	Cwestiwn allweddol 3, 4 a 7
Mrs Glenda Evans	Enwebai'r Ysgol
Nid oedd asesydd cymheiriad ar gyfer arolygiad yr ysgol hon	

Contractwr: Cwmni Cynnal
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr fynegi eu diolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr arolygiad.